**Adolygiad o Drefniadau Asesu a’r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru**

Nodyn gan yr Athro Donaldson

Rydym oll yn deall pwysigrwydd addysg i ddyfodol ein plant a’n pobl ifanc ac i Gymru ar lefel gymdeithasol ac economaidd. Ysgolion sy’n meithrin gweithwyr y dyfodol felly mae’n hanfodol fod yr addysg y maent yn ei darparu mor berthnasol, heriol a buddiol â phosibl. Gallwn ymfalchïo mewn sawl agwedd ar addysg yng Nghymru ond nid da lle gellir gwell. Mae’n rhaid i ni hefyd nodi meysydd y gallwn eu gwella ac y dylwn eu gwella a gweithredu’n unol â hynny. Dyna pam y mae’r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, wedi gofyn i mi gynnal adolygiad cynhwysfawr a manwl o’r cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu yng Nghymru.

Mae’n hollbwysig fy mod yn clywed safbwyntiau cymaint â phosibl o bobl yng Nghymru: athrawon, academyddion, rhieni/gofalwyr, busnesau, y gymuned ehangach ac yn bwysicaf oll pobl ifanc. Rydym oll eisiau sicrhau’r dyfodol gorau posibl i fyd addysg yng Nghymru ac rwy’n awyddus i sicrhau bod eich holl safbwyntiau’n cael eu hystyried wrth i mi lunio fy argymhellion.

Hoffwn felly eich annog i fynegi eich barn a hefyd annog cymaint â phosibl o bobl eraill i wneud yr un peth.

Dogfen Cais am Dystiolaeth

[http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/contact-us/?lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/contact-us/?lang=cy)

Dymuniadau Gorau



Ceir rhagor o wybodaeth am yr adolygiad yn:

[http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/?skip=1&lang=cy)